# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Robert Ll Jones (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Dylan Rees, Dafydd Roberts, J Arwel Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Richard Griffiths |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf, 2021 ac fe gadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y bydd angen cynnal Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fis nesaf er mwyn trafod ymateb y Cyngor i adroddiad drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau ar 26 Tachwedd 2021.

**3 ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL**

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod y Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi dechrau ar ei adolygiad 2023 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986. Mae cynigion cychwynnol wedi eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori, gyda dyddiad cau o 3 Tachwedd wedi ei nodi ar gyfer derbyn sylwadau.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y cynigion yn argymell lleihau nifer yr etholaethau o 40 i 32 yng Nghymru. Nid yw Etholaeth Ynys Môn yn destun unrhyw newidiadau ac nid yw'n cael ei argymell fod unrhyw newid enw chwaith.

Nodwyd y gwnaethpwyd achos i ddiogelu Etholaeth Ynys Môn yn 2017, fel rhan o'r adolygiad diwethaf.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y cynigion yn argymell lleihau nifer yr etholaethau o 40 i 32 yng Nghymru. Codwyd pryderon am yr effaith y byddai'r gostyngiad hwn yn ei gael ar Gymru a llais democrataidd.

**PENDERFYNWYD croesawu'r cynigion ar gyfer Etholaeth Seneddol Ynys Môn, fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, ac argymell hynny i'r Cyngor Sir.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40 am

**CYNGHORYDD ROBERT LL JONES**
**CADEIRYDD**